Papur Bro Abertawe

# WILIA

RHIFYN 472 CHWEFROR 2025 | AM DDIM

## DYDD GŴYL DEWI - CENHINEN NEU GENHINEN PEDR?

-MARTIN JONES

Bob Dydd Gŵyl Dewi, mae pobl ledled Cymru yn gwisgo cenhinen neu genhinen Pedr, neu o leiaf bathodyn ar ffurf un o'r planhigion hyn. Ond a dweud y gwir, does neb yn gwybod i sicrwydd pam!

O ran y genhinen, mae cwpl o chwedlau. Yn ôl chwedl o'r chweched ganrif, dwedodd Cadwaladr, brenin Prydain, wrth ei filwyr am wisgo cennin er mwyn iddynt adnabod eu cydwladwyr yn ystod brwydr yn erbyn y Sacsoniaid.

Yn ôl yr ail chwedl, sydd yn mynd yn ôl i Frwydr Crecy ym 1346, brwydrodd y saethwyr Cymreig mor ddewr mewn cae o gennin fel y dechreuodd y Cymry wisgo cennin yn eu capiau i'w atgoffa nhw o ddewrder y saethwyr.

Neu efallai'r mabwysiadwyd y genhinen fel symbol cenedlaethol o achos ei phriodoleddau ymddangosiadol. Er enghraifft, defnyddid cennin mewn meddygaeth i helpu i wella anwydau ac i leddfu poenau genedigaeth plentyn.

Ond beth bynnag ydy ei darddiad, mae'n ymddangos bod y traddodiad wedi'i hen ymsefydlu erbyn oes y Tuduriaid gan fod cyfrifon y gartref frenhinol yn cofnodi taliadau am gennin i'w gwisgo gan Warchodlu'r Gartref ar Ddydd Gŵyl Dewi Sant.

Beth am y genhinen Pedr? O'i chymharu â'r genhinen fel symbol cenedlaethol, mae hi wedi dod i amlygrwydd yn gymharol ddiweddar. Mae'n bosib bod y genhinen wedi dod yn gysylltiedig â gwawdluniau o'r Cymry, ac yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg dechreuodd pobl droi at y genhinen Pedr fel amgen achos ei bod hi'n blodeuo tua Dydd Gŵyl Dewi Sant.

Dywedir yr oedd David Lloyd George o blaid y genhinen Bedr ac iddo'i phoblogeiddio o ganlyniad i'w anogaeth o'i defnydd yn arwisgiad Tywysog Cymru yng Nghaernarfon ym 1911 – er nad oes dim golwg o'r un genhinen Bedr mewn hen ffilmiau o'r digwyddiad! Does dim syndod chwaith achos cynhaliwyd yr arwisgiad ym mis Gorffennaf!

Tybed a oedd gwynt y genhinen Bedr o'i gymharu â gwynt y genhinen yn factor y tu ôl i'w phoblogrwydd cynyddol. Wedi'r cwbl, rwyf yn meddwl y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn dweud bod gwynt y genhinen Bedr yn fwy dymunol o lawer. Efallai yr oedd gwynt y genhinen yn fantais ganrifoedd yn ôl o ystyried safon glanweithdra personol bryd hynny, ond wrth i safon glanweithdra personol wella, dechreuodd rhai pobl chwilio am rywbeth oedd yn gwynto'n fwy persawrus!



Ond beth bynnag ydy tarddiad y traddodiad o wisgo cenhinen neu genhinen Bedr ar Ddydd Gŵyl Dewi Sant, mae'n amlwg bod y traddodiad wedi'i hen ymsefydlu erbyn heddiw. Mae'n ymddangos i fi taw eich dewis chi ydy pa un i wisgo - ond cadw'r traddodiad yn fyw ydy beth sydd yn hollbwysig.

## CÔR TŶ TAWE YN LLUNDAIN

-HEINI GRUFFUDD

Cafodd Côr Tŷ Tawe groeso gwresog yng Nghapel Cymraeg y Boro, Llundain, nos Sadwrn 15 Chwefror.

Gwahoddwyd y côr gan Gôr y Boro a chymerodd y ddau gôr ran yn y gyngerdd gan ganu nifer o ganeuon ar wahân a chanu Adiemus, Tangnefeddwyr a Hafan Gobaith gyda'i gilydd.

Catrin Barker, Holland gynt, oedd arweinydd Côr y Boro. Mae hi'n hanu o Benllergaer, yn ferch i Delyth Holland, a chyn-ddisgybl o Ysgol Gŵyr.

Cafwyd eitemau unigol gan rai o'r ddau gôr, gan gynnwys Helen Evans, Rex Beynon a Catrin Alun.

Cafwyd gwledd ar ôl y gyngerdd, ac yna dipyn o ganu yn nhafarn Clive.

Teithiodd holl aelodau Côr Tŷ Tawe, a hynny'n glod i'r arweinydd, Bethan Wynne Phillips



## CYMDEITHAS GYMRAEG TREFORYS A'R CYLCH

### -DAVID GWYN JOHN

Y siaradwr yng nghyfarfod mis Chwefror oedd un o'n haelodau, Gareth Richards. Ym mis Tachwedd 2024 bu Gareth yn un o 40 a deithiodd i'r Wladfa am dair wythnos. Roedd y grŵp dan arweiniad y canwr Rhys Meirion a Bryn Fôn ac yn cynnwys cynrychiolaeth gref o Gwmtawe.

Adroddodd Gareth hanes yr ymfudwyr cynnar a deithiodd draw ar y Mimosa yn 1865 dan anogaeth Michael D. Jones. Cawsant ganiatâd gan lywodraeth yr Ariannin i ymsefydlu yn Nyffryn Camwy. Roedd y tir yn ddiffaith ac roedd y gwaith o'i drin a'i ffrwythloni yn anodd ond gyda chydweithrediad y Telhuelche, y brodorion llwyddwyd i sefydlu cymdeithas uniaith Gymraeg a fyddai mae o law yn cyd fyw ochr yn ochr â'r Sbaeneg. Dangosodd Gareth luniau o'r cyfnod cynnar ac aeth ymlaen i siarad am ac i ddangos lluniau o fywyd cyfoes ym Mhatagonia gan gyflwyno i ni nifer o gymeriadau'r ardal. Gwelsom luniau o gapeli ac ambell garreg fedd yn yr iaith Gymraeg a gerfiwyd ar lechen o Gymru. Teithiwyd am oriau ar draws y paith i Gwm Hyfryd gan dreulio cyfnodau yn Nhrevelin ac Esquel.

Diolchwyd i Gareth am noson ddiddorol ac addysgiadol gan Dr Terry Williams. Cyfeiriodd at aelodau o deulu ei wraig Gloria a ymfudodd i'r Wladfa yn y dyddiau cynnar. Diddorol oedd clywed am gysylltiad mamgu Robert Lloyd Evans â Michael D. Jones. Roedd yn ddau yn gyd-ddisbyblion yn yr ysgol fach yn Llanuwchllyn.

Cynhelir cyfarfod mis Mawrth yng Nghanolfan y Tabernacl am 7.00 p.m., nos Iau, 21 Mawrth. Fe fydd un o fechgyn Treforys, Steffan Phillips yn cyflwyno hanes Celtic Studios y cwmni o Dreforys a ddaeth yn enwog am gynhyrchu ffenestri lliw a'u hallforio ar draws y byd.






## CYMDEITHAS GYMRAEG LLANDEILO FERWALLT

## MWMBWLS DDOE A HEDDIW

### -ADOLYGIAD GAN ROB EVANS

Mae'r byd yn newid trwy'r amser ond am fod y newid yn araf byddech chi ddim yn sylwi, dach chi'n dod i arfer â'r newidiadau ac wrth i'r blynyddoedd mynd heibio dydych chi ddim yn sylwi ar faint o newid sydd wedi digwydd. Fel hyn mae wedi bod trwy amser wrth gwrs ond yn y dyddiau cyn gwyrth y camera roedd pobl yn dibynnu ar ddarluniau er mwyn cymharu, ac nad oedd pob peth wedi cael ei ddarlunio. Roedd Abertawe yn bwysig iawn yn natblygiad y camera a'r datblygiad hynny yn ehangu ein gwybodaeth am hanes ein hardaloedd. John Dilwyn Llewelyn o Benllergaer oedd y dyn yna.

Ond ar y 10fed o Ionawr yng nghyfarfod Cymdeithas Cymraeg Llandeilo Ferwallt y dyn pwysig oedd Martin Jones. Fo oedd yn siarad efo ni am sut mae Mwmbwls wedi newid dros y blynyddoedd. Ers dechrau datblygiad y camera mewn gwirionedd achos doedd o ddim yn gallu dangos unrhyw lun cyn hynny, wrth reswm.

Mae Martin wedi bod yn casglu hen luniau o'r ardal dros y tair blynedd diwethaf ac wedi mynd ati i drio sefyll yn yr un lle â'r ffotograffydd gwreiddiol er mwyn dangos yn union sut mae pethau wedi newid yn y cyfnod. Cawsom y cyfle i ddeall pa mor swil a 'proper' oedd pobl ar lan y môr, y dynion yn defnyddio un ochr y traeth a'r merched yr ochr arall. Y merched hefyd yn newid mewn cwt ar olwynion i osgoi'r embaras o ddangos eu coesau. Petasai'r bobl yna wedi gallu cerdded i'r dyfodol bysen nhw wedi cael ffit!

Mae naid fawr wedi cael ei wneud ers y moduron gyntaf a'r modur ei hun sydd yn gyfrifol am y naid. Roedd gwasanaeth y trên yn gweithio'n iawn i gael pobl at lan y môr ond roedd defnyddio'r car yn gwneud pethau'n llawer mwy cyfleus a hyblyg. Ond fel dach chi'n gweld roedd y gyrwyr yn gallu gyrru ond doedden nhw'n dda i ddim efo sgiliau parcio!

Diddorol iawn oedd gweld y ddau lun wnaeth Martin ddangos ar y diwedd. Roedd Martin wedi sicrhau bod y llanw yn union yr un lle ac, ar ôl gweld gymaint o luniau yn dangos gwahaniaeth mawr dyma chi golygfa sydd ddim wedi newid. Ond fe sylwom ar safon yr hen lun a'r llun roedd Martin wedi tynnu - roedd John Dilwyn Llewelyn yn gallu tynnu lluniau cystal â'r lluniau 'dyn ni'n tynnu heddiw.

Dyn arbennig iawn!

Diolch i Martin am roi sgwrs mor ddiddorol i ni!



## BYD NATUR – MIS MAWRTH 2025
## CWNINGOD AC YSGYFARNOGOD
-PATRICK SOPER

Er eu bod yn olwg cyffredin ac yn groeso dros ben yn ein cefn gwlad, dyw cwningod ddim yn frodorol i'r ynysoedd hyn. Roedd pobl yn arfer credu y wnaethon nhw hanu o Sbaen, a chawson nhw eu cyflwyno yma gan y Normaniaid yn y 12fed ganrif fel ffynhonnell bwyd a ffwr; ond yn awr mae llawer o bobl yn meddwl y maen nhw'n dyddio o gyfnod y Rhufeiniaid.

Anifeiliaid cymdeithasol yw'r rhain sy'n sefydlu cymunedau o hyd at 30 aelod, yn cysgodi mewn rhwydweithiau o dwneli wedi cael eu palu yn bennaf gan y benywaidd. Yn y gwyllt mae modd i gwningen fyw mor hir â thair blynedd, er bu farw 90% ohonynt yn ystod eu blwyddyn gyntaf - llawer o'r rheiny o fewn eu tri mis cyntaf



O fewn cymdeithas cwningod bydd y gwrywod amlycaf yn paru gyda'r menywod sydd fwyaf ar gael, sy'n gallu cynhyrchu rhwng tri a saith ifainc bob mis.
Mae'n hawdd cymysgu cwningod ag ysgyfarnogod, ond, yn sylfaenol, maen nhw'n wahanol. Cafodd ysgyfarnogod, yn ogystal ag ieir, eu cyflwyno i'r ynysoedd hyn yn ystod yr Oes Haearn, yn ôl bob sôn, a nawr maen nhw wedi'u gwarchod gan y gyfraith - yn wahanol i gwningod.

Mae gan y ddwy rywogaeth glustiau hir, ond mae gan glustiau'r ysgyfarnogod flaenau du nodweddiadol; hefyd, mae llygaid melyngoch gan yr ysgyfarnogod, ond yn frown yw llygaid cwningod. Nid yw ysgyfarnogod yn tyllu, yn lle hynny, maent yn byw tu allan yn yr awyr agored. Gall y menywod gynhyrchu i fyny at dorllwyth o dair neu bedair bob blwyddyn.

## ARWR ARALL Y BYD RYGBI
-DAFYDD GWYLON

Cystal i ni gofio nôl at Oes mwy Euraidd rygbi yng Nghymru
i gael ysbrydoliaeth! Un chwaraewr llwyddiannus oedd Dewi Bebb. Fe enillodd Dewi 34 cap wrth chwarae i Gymru o 1959 ymlaen. Fe sgoriodd 11 cais dros ei wlad. Bu Dewi Bebb hefyd yn chwarae i glwb Abertawe.
Cafodd Dewi ei fagu ym Mangor ac fe fu'n astudio yng Nghaerfyrddin - yng Ngholeg y Drindod. Roedd yn hyfforddi bryd hynny at fod yn athro.
Pan oedd e'n serennu ar y maes rygbi cenedlaethol fe wahoddwyd Dewi Bebb i fod ar Banel Seiet Holi yng Nghapel y Gopa, Pontarddulais yn 1960 ynghyd ag aelod arall o staff Coleg y Drindod bryd hynny, Lili Thomas. Fe lwyddais innau i gael llofnod Dewi Bebb noson y Seiet Holi. Fe gawsom eu cwmni hefyd wedyn yn y tŷ. Y fath anrhydedd!

Roedd Lili Thomas yn ddarlithydd yn y Coleg a Dewi Thomas yn hannu o'r Ffwrnes, Llanelli ac yn weithgar gyda'r Urdd. Fe aeth Dewi Bebb ymlaen wedyn i weithio ym maes teledu a chynhyrchu rhaglenni.
Roedd Dewi yn perthyn i deulu blaenllaw ym mywyd addysgol a diwylliannol Cymru ar ochr ei fam a'i dad. Mae brawd Dewi, Ifan, yn byw yn Llanfairpwll ac yntau hefyd wedi astudio yn y Brifysgol yn Abertawe a gweithio yn Ne Cymru am gyfnod.
Gobeithio bydd rhai darllenwyr a mwy o atgofion am Lili a Dewi Thomas yn ogystal ag am Dewi Bebb.





## NEWYDDION YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYN TAWE

### SIARAD CYHOEDDUS
-MEINIR JONES, PENNAETH YR ADRAN GYMRAEG

Da iawn i Hari, Keira ac Angharad o Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe am gynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg y Rotari eleni.



## SEREMONI GADEIRIO 2025

-MEINIR JONES, PENNAETH YR ADRAN GYMRAEG

Eleni, unwaith eto, cynhaliwyd dwy Seremoni Gadeirio fel rhan o ddathliadau Dydd Gŵyl Dewi Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe. Cynhaliwyd Seremoni i fl.709 cyn egwyl a Seremoni i fl.10 i 13 cyn cinio.

Trosglwyddwyd yr awenau yn ôl yr arfer i rai o brif swyddogion yr ysgol, sef Ella Thomas a Lewis Morgan.

Eleni, Dyfan Lewis, cyn-ddisgybl i'r ysgol, oedd y beirniad ar gyfer y gadair a Shauna Brown, cyn-ddisgybl arall yn feirniad ar gyfer y Tlws Saesneg. Diolchwn iddynt am eu holl waith wrth feirniadu.

Roedd 'Gwen' wedi plesio'r beirniad yn fawr a phleser oedd gweld Cari Keirnan o Flwyddyn 12 yn codi o'i sedd yng nghefn y neuadd i dderbyn y fraint o fod yn brif lenor yr ysgol eleni! Cafodd gymeradwyaeth wresog gan ddisgyblion hŷn yr ysgol. Llongyfarchiadau enfawr iddi. Yn ail am y gadair hŷn oedd Maiwenn Watson o flwyddyn 11 ac yn drydydd oedd Elen Williams o flwyddyn 12!

Yn ein Seremoni blwyddyn 7-9, hyfryd oedd gweld 'Gwylanod', sef Fanw Watson o flwyddyn 9 yn codi ar ei thraed. Dyma'r ail dro iddi ennill cadair yn un o seremonïau'r ysgol! Yn ail oedd Carys Kent o fl.9 ac yn drydydd oedd Fanw Watson eto!





Yn wir, roedd e'n ddiwrnod i gofio i deulu'r Watsons gyda Fanw yn ennill y gadair iau, Maiwenn yn ail am y gadair hŷn, a Ieuan yn fuddugol yng nghystadleuaeth rhyddiaith bl.7!

Hoffai'r Adran Gymraeg ddiolch yn fawr i bawb a gystadlodd ac yn arbennig i'r staff a'r disgyblion a fu'n rhan o'r seremoni- yn enwedig Keira Hopkins ac Evie Barr am ganu cân y cadeirio (a Cari Kiernan yn y seremoni iau!), Llywelyn Gannon am ganu'r ffanffer, i Mrs Bethan Harkin am gyfeilio ar y delyn, Mr Alun Williams wrth y piano, Ifan a Mariella am gyrchu'r buddugol, i Lewis a Dylan am fod yn dechnegwyr, Kitty a Noah yn ffotograffwyr ac i staff Adran y Gymraeg am draddodi beirniadaethau'r blynyddoedd unigol. Hyfryd hefyd oedd gweld cynrychiolwyr o bob blwyddyn ar y llwyfan a hwythau wedi'u dewis am ymrwymiad i Gymreictod yn yr ysgol.

Llongyfarchiadau hefyd i Ava Johns am ennill y Tlws Saesneg hŷn ac i Rhian Williams a Caitlin Connaughton am ddod yn ail a thrydydd, ac i Elan Evans am ennill y Tlws Saesneg iau a Freya Johnson a Arabella Roberts yn ail a thrydydd.

Hyfryd oedd croesawu tri Llywodraethwr ar gyfer y Seremonïau, sef Mrs Esther Wood, Mrs Sarah East a Mrs Fiona Gannon, ynghyd ag ymwelwyr i'r ysgol heddiw o ran y Siarter Iaith.

Diwrnod i'w gofio!

## CYNRYCHIOLI CYMRU

-CATRIN LYALL, IS-BENNAETH Y CHWECHED

Llongyfarchiadau mawr i Ashley Griffiths o flwyddyn 12 sydd wedi cynrychioli Cymru dan 17 wrth chwarae pêl-droed. Ym mis Ionawr cafodd Ashley deithio i'r Algarve ym Mhortiwgal gan chwarae mewn tair gem – yn erbyn Poriwgal, Gwlad yr Ia a Demarc. Roedd yn brofiad anhygoel iddi fod gyda gweddill y garfan. Bydd yn teithio i Ffrainc ar ddechrau Mis Mawrth i chwarae yn erbyn Ffrainc a dwy wlad arall. Pob lwc i ti Ashley!



## CODI ARIAN I LATCH

-CATRIN LYALL, IS-BENNAETH Y CHWECHED

Yn ddiweddar gwnaeth criw o flwyddyn 12 ymdrech wych i godi arian i Latch, elusen sy'n gweithio â phlant sy'n dioddef o gancr. Mae'r elusen yn un sy'n bwysig iawn i ni ym Mryn Tawe. Dewisiodd Kitty Walton, Elen Williams a Noah Lewis-Ayling gynnal stondin gacennau a gweithdy breichledi cyfeillgarwch er wmyn codi arian er cof am Grace, cyfnither Kitty a fu farw y llynedd. Codwyd £150 i'r achos teilwng hwn.



## DATHLU CREADIGRWYDD YN EISTEDDFOD YSGOL GYFUN GŴYR

Unwaith eto eleni, dangosodd Eisteddfod flynyddol Ysgol Gyfun Gŵyr dalent lenyddol arbennig ei disgyblion, gyda'r Gadair eleni'n cael ei hennill gan Heledd Francis, disgybl ym Mlwyddyn 12. Gwnaeth ei stori eithriadol am ddimensia argraff fawr ar Mari Stevens, a oedd yn beirniadu'r gystadleuaeth. Mae'r Gadair yn un o anrhydeddau mwyaf yr Eisteddfod, gan ddathlu rhagoriaeth mewn ysgrifennu creadigol yn y Gymraeg, a safodd gwaith Heledd allan oherwydd ei ddyfnder, ei wreiddioldeb, a'i effaith emosiynol.

Yn y cyfamser, dyfarnwyd Y Tlws Saesneg i Catrin Watkins, disgybl ym Mlwyddyn 13, sy'n ennill y wobr am yr ail flwyddyn yn olynol—camp ryfeddol. Beirniadwyd y gystadleuaeth hon gan Owain Clarke, gohebydd BBC Cymru ac un o gyn-ddisgyblion Gŵyr, a oedd yn llawn canmoliaeth am waith Catrin, gan ei ddisgrifio'n greadigol ac wedi'i gyflwyno'n grefftus.

Mae cymuned yr ysgol yn falch iawn o'r holl ddisgyblion a gymerodd ran yn y cystadlaethau, ac estynnir llongyfarchiadau arbennig i Heledd a Catrin ar eu llwyddiant haeddiannol. Mae eu cyflawniadau'n dyst i'r dalent lenyddol fywiog sy'n cael ei meithrin yn Ysgol Gyfun Gŵyr, ac edrychwn ymlaen at weld ble fydd eu hysgrifennu'n eu harwain yn y dyfodol.





## LLWYDDIANT CYSTADLEUAETH DDADLAU!

Llongyfarchiadau i ddisgyblion Ysgol Gyfun Gwyr ar eu llwyddiant yn y Gystadleuaeth Ddadlau!

Mae disgyblion dawnus Ysgol Gyfun Gwyr wedi profi eu sgiliau dadlau arbennig drwy ennill cystadleuaeth ranbarthol a drefnwyd gan Rwydwaith Seren. Cynhaliwyd y gystadleuaeth ym Neuadd Sgeti, Abertawe, lle cystadlodd timau o wyth ysgol mewn tair dadl heriol.



Llun uchod: Y tîm buddugol - Beca, Zofia, Elliw a Georgie-Bo

Llun isod: Tîm bl.9 - Elise, Chloe, Gwion a Mared



Bu'n rhaid i'r cystadleuwyr drafod pynciau llosg gan gynnwys preifateiddio'r GIG, diddymu asesiadau wedi'u hamseru mewn ysgolion yng Nghymru, a'r cwestiwn a yw carchardai yn gwneud mwy o ddrwg nag o les. Dangosodd y disgyblion Beca, Zofia, Elliw a Georgie-Bo eu dealltwriaeth drylwyr, eu sgiliau rhesymu a'u gallu i gyflwyno dadleuon cryfion gyda hyder a eglurdeb.

Yn erbyn cystadleuaeth gref, llwyddodd y merched i sicrhau'r fuddugoliaeth, gan guro saith ysgol arall i gipio'r teitl rhanbarthol. Nesaf, bydd y tîm yn teithio i Goleg yr Iesu, Rhydychen, ym mis Mawrth i gystadlu yn y rownd derfynol genedlaethol – camp anhygoel!

Mae'r ysgol yn hynod falch ohonynt, a dymunwn bob llwyddiant iddynt yn y rownd derfynol. Llongyfarchiadau mawr i Beca, Zofia, Elliw a Georgie-Bo – daliwch ati i ddisgleirio!

## CYSTADLEUAETH DDADLAU RHWYDWAITH SEREN

Llongyfarchiadau i Ddisgyblion Blwyddyn 9 yng Nghystadleuaeth Ddadlau Rhwydwaith Seren

Cafodd disgyblion Blwyddyn 9 o Ysgol Gyfun Gwyr gyfle arbennig i gymryd rhan yng Nghystadleuaeth Ddadlau Rhwydwaith Seren drwy gyfrwng y Gymraeg ar ddydd Mawrth, 11eg o Chwefror. Cynhaliwyd y gystadleuaeth yn Ysgol Gartholwg, gyda nifer o ysgolion yn cymryd rhan, gan gynnwys Cwm Rhondda, Llanhari, Rhydywaun, Ystalyfera Bro Dur, Gartholwg a Bryntawe.

Roedd y disgyblion yn herio ei gilydd mewn dadleuon ar bynciau cyfoes ac yn dangos sgiliau trafod arbennig. Ymhlith y pynciau a drafodwyd roedd preifateiddio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a diddymu banciau bwyd. Tîm Ysgol Gyfun Gwyr eleni oedd Elise, Chloe, Gwion a Mared, a llwyddon nhw i wneud argraff fawr gyda'u dadleuon cryfion a'u cyflwyniadau hyderus.

Yn ogystal, roedd y gystadleuaeth yn dilyn fformat MACE – dull dadlau heriol sy'n gofyn am resymu clir a sgiliau dadlau soffistigedig.

Er gwaethaf yr her, dangosodd y disgyblion lefel ardderchog o ddealltwriaeth a chraffter yn eu hymatebion. Llongyfarchiadau mawr iddyn nhw am eu perfformiad gwych!

O ganlyniad i'w llwyddiant, bydd y tîm Cymraeg yn ymuno â'r tîm Saesneg o'r ysgol ar eu hymweliad i'r rownd derfynol yng Ngholeg yr Iesu, Rhydychen, ddiwedd mis Mawrth.

Pob lwc i bawb yn y dyfodol wrth ddatblygu eu sgiliau dadlau ymhellach!

Diolch yn fawr i'n cyfranwyr ar gyfer rhifyn Chwefror. Menter Iaith Abertawe sydd nawr yn coladu straeon Wilia. Plîs danfonwch unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb i'n darllenwyr ar gyfer rhifyn Chwefror erbyn Mawrth 7fed trwy ebostio Anys at:
**datblygu@menterabertawe.org**
Neu anfonwch eich lluniau/straeon at dudalen Facebook Wilia.

Cymraeg Dysgu Learn
Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

# GŴYL TAWE

# GRUFF RHYS
# ADWAITH
## EADYTH · LOS BLANCOS
## MARI MATHIAS
## MALI HÂF · PYS MELYN
YN CYFLWYNO: **MANON**

**A MWY I'W GYHOEDDI / MORE TBA**

YSGOLION ABERTAWE · SIOE MEWN CYMERIAD
GWEITHDAI CELF ORIELODL · SINEMA AM CYMRU
SESIWN WERIN · GWEITHDAI THEATR NA NÓG
GWEITHDAI FAMILIA DE LA NOCHE

07.06.25 · ABERTAWE
AMGUEDDFA GENEDLAETHOL Y GLANNAU
NATIONAL WATERFRONT MUSEUM
10:00–21:00

THE BUNKHOUSE · AMGUEDDFA CYMRU · Taliesin